Arthur White: 1951–

Pencampwr byd

Dyfalbarhad / ymddiriedaeth

Yn ôl Arthur White, pencampwr byd ar godi pwysau, roedd Iesu Grist yn ddyn caled ond mi roedd o'n ddyn da. Yn y cyfweliad sy'n dilyn, mae White yn sôn amdano'i hun cyn ei dröedigaeth.

Buoch yn codi pwysau am flynyddoedd. Beth oedd hyn yn ei olygu i chi?

Y cwbl. Roedd popeth arall yn eilbeth. Enillais bencampwriaeth Prydain chwech o weithiau, Ewrop bedair o weithiau a phencampwriaeth y byd deirgwaith. Roeddwn i'n byw bob eiliad i godi pwysau. Dyna i gyd oedd ar fy meddwl i.

Ond mi fuoch chi yn ystod y cyfnod hwn yn byw bywyd o dor-cyfraith?

Do, mae hynny'n hollol wir. Yn y cyfnod hwnnw roeddwn i yn ddyn busnes llwyddiannus, tŷ mawr gen i yma yn Llundain a *villa* yn Sbaen, ceir mawr a digonedd o arian. Roeddwn i hefyd yn crwydro'r byd mewn gornestau codi pwysau. I ddweud y gwir, roedd gen i bopeth roeddwn i eisiau. Ond yn raddol mi ddois i dan ddylanwad cyffuriau. Yn y diwedd, mi wnaethon nhw gymryd drosodd fy mywyd i. Yn y pen draw, mi gollais i'r cyfan – y busnes, y ceir moethus a'r arian i gyd. Popeth, mi aeth y cyfan, a hynny mewn byr amser. Mi gollais i'r cyfan. Mi wnaeth fy ngwraig fy ngadael i ac mi roedd hynny'n loes fawr i mi.

Beth yn union ddigwyddodd i newid eich bywyd?

Wel i ddechrau, roeddwn i'n meddwl y gallwn i ddefnyddio Duw. Mi rois her iddo. Os oedd o mor dda â hynny, ac os oedd o'n bod, yna deled i roi trefn arna i. Chlywais i ddim llais yn galw arna i, na chôr o angylion yn canu ond yn araf mi oedd yna rywbeth tu mewn i mi. Mi aeth yr ofn a'r tensiwn o'm mywyd i. Mi stopiais i gymryd cyffuriau. Roeddwn i'n sicr fod Iesu Grist yn fyw a'i fod o'n trawsnewid fy mywyd i.

Oedd hi mor hawdd â'r hyn rydych chi yn ei ddweud?

Oedd a nac oedd. Er i mi stopio cymryd cyffuriau, roeddwn i'n deffro yn y nos yn dyheu am y cyffuriau hynny. Ac er fy mod i wedi dweud wrth fy ngwraig fy mod wedi penderfynu dilyn Iesu Grist, mi gymerodd hi dipyn o amser i ni ddod yn ôl at ein gilydd. Roeddwn i wedi brifo fy ngwraig ac felly roedd hi'n ofni dod yn ôl ataf. Dydi hi ddim yn hawdd bod yn Gristion ond, coeliwch fi, roedd dilyn Iesu yn llawer gwell na'r bywyd roeddwn i'n ei fyw.

Beth yn union ydi Tough Talk?

Criw o ddynion tebyg i mi. Mi rydyn ni i gyd yn dod o Ddwyrain Llundain. Pob un yn dod o'r un math o gefndir. Efallai y gallech chi'n galw ni'n "gymeriadau amheus". Rydyn ni i gyd yn hogiau sydd yn codi pwysau. **Ond**, yr hyn sy'n bwysig i bob un ohonom ni ydi ein bod ni wedi darganfod Iesu Grist ac mae o wedi newid bywydau pob un ohonom ni. Rydyn ni'n mynd o gwmpas Prydain ac Ewrop erbyn hyn i ddangos ein doniau fel codwyr pwysau, ond yn cael cyfle hefyd i sôn am bŵer arall. Y pŵer a newidiodd ein bywydau ni yn *Tough Talk*. Dydyn ni ddim yn ddawnswyr na chantorion, ond yn gwneud yr hyn rydyn ni'n medru ei wneud, sef codi pwysau a chanmol Iesu Grist.

A beth am Iesu?

Saer oeddwn i ar y dechrau a saer oedd Iesu Grist. Dyn caled iawn oedd o ond yn ddyn da ac yn Arglwydd ar fy mywyd i.

Arthur White, diolch i chi am rannu eich profiadau efo ni ac am fod mor onest.

"Yr wyf yn diolch i Grist Iesu ein Harglwydd, yr hwn a'm nerthodd, am iddo fy nghyfrif yn deilwng o'i ymddiriedaeth a'm penodi i'w wasanaethu: myfi, yr un oedd gynt yn ei gablu, ei erlid a'i sarhau."
Hoff adnod Arthur White
Timotheus 1:12-13

O Dduw,
mae eisiau nerth go arbennig i godi pwysau:
mae'n rhaid cael cyhyrau a chorff cryf.
Wrth dy ddilyn Di mae angen nerth arbennig iawn hefyd i ddal ati i frwydro 'mlaen, doed a ddelo.
Helpa ni i ddal ati.
Amen.

Ydi pobl yn dal i gofio am gefndir pobl fel Arthur White?
Fuasech chi'n gallu gwrando ar y math yma o ddyn gan gofio'i gefndir?

Arthur White: 1951-